

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 11 GORFFENNAF 2024 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Meinir James, Elfyn Williams, Janet Knott, Rheinallt Jones, Shan Rees ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Y Cyng Viv Davies, Carys Thomas, Jenny Jones, Eifion Jones a Cynghorydd Sir Tyssul Evans.

2. Nododd y Cadeirydd farwolaeth Ralph Stephens a Geraint Rees yn ddiweddar, safodd yr aelodau am funud mewn distawrwydd i dalu teyrnged i'r ddau a'u cyfraniadau i Gymuned Llandyfaelog.

Nododd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Cyngor i'r Cynghorydd Sir Tyssul Evans yn dilyn arhosiad diweddar yn yr ysbyty.

Nododd y Clerc nad oedd y Rhaglen Teams ar gyfer presenoldeb o bell yn gweithio ar yr achlysur hyn.

3. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

4. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

5. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6^{ed} Mehefin 2024.

6. Materion yn Codi

- 1. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 2. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau gan fod y ffordd yn ddi-ddosbarth a heb fater diogelwch pwysig fel ar dro dall, nid oedd angen caniatâd ar gyfer mynedfa newydd. Cadarnhawyd ymhellach nad oedd yn ymddangos bod mynedfa wedi ei hagor. Nid oedd diweddariad ar gael mewn perthynas â'r broses arolygydd cynllunio. Nodwyd.
- 3. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 4. FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 5. Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 6. Biniau Sbwriel Cyhoeddus yn y Cymuned** – Nodwyd bod gwybodaeth am broses y Cyngor Sir gyda biniau yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei chasglu a byddai'n cael ei rhannu gyda'r Cynghorwyr Sir. Nodwyd bod angen gwagio'r bin yn Idole.
- 7. Grid Cenedlaethol – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Bydd y Clerc yn codi'r mater

gyda'r AS sydd newydd ei ethol ar gyfer yr etholaeth mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd yn y Gymuned a'r camau nesaf posibl ar y broses ymgynghori. Roedd y Cyngor yn aros am wybodaeth hefyd am y cais am ollyngiad Côt Ymddygiad a wnaed i'r Cyngor Sir ar gyfer aelodau'r Cyngor.

8. **Archwiliad Cymru** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel** - Nodwyd bod y Cyngor Sir yn bwriadu gweithredu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig cysylltiedig ar 16^{eg} Awst, bydd arwyddion traffig/marciau ffordd yn dilyn rownd y dyddiad hwn. Nodwyd.
10. **Arwydd adborth cyflymder yng Nghwmffrwd** - Nodwyd bod yr uned yn aros i gael ei newid. Nodwyd.
11. **Goleuadau troedffordd yn Frondeg** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
12. **Tyllau ar yr heol yn Llandyfaelog** – Nodwyd bod y mater wedi'i atgyweirio.
13. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
14. **Torri coed yn Croesyceiliog** - Nodwyd yn dilyn torri coed yng Nghroesyceiliog, ei bod yn ymddangos bod mynediad trwy FC 29 4/1 a 4/2 wedi'i rwystro. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.

7. Gohebiaeth

1. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
 2. **Cylchlythyr Calon Tân** – Nodwyd.
 3. **Nododd y Cyng Meinir James ei diddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y mater hwn. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: Sir Gaerfyrddin (Cyfyngiadau aros a lleoedd parcio stryd). Roedd hyn yn cynnwys y cynigion yr ymgynghorwyd â hwy yn flaenorol gyda'r Cyngor Cymuned ar gyfer Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Nodwyd siom ar ddiffyg ymateb llawn i bryderon y Cyngor Cymuned a godwyd ar y rhag-ymgynghoriad ar y mater hwn gan y Cyngor Sir. Byddai'r Cyngor felly yn gwrthwynebu'r cynnig oherwydd y canlynol:
 - Ni theimlwyd y byddai'r bwriad yn lleddfu'r problemau a brofwyd ac y byddai mewn gwirionedd yn gwaethygu'r mater gan byddai'r traffig yn symud ymhellach o'r ysgol, gan barcio mewn mannau sydd hyd yn oed yn llai addas. Teimlwyd y gallai hyn gynyddu'r perygl i'r plant.
 - Nid oedd digon o wybodaeth ar gael ynghylch ble y rhagwelir y bydd y maes parcio amgen a ragwelir ar gyfer y cerbydau sy'n cael eu dadleoli, os nad ydynt mewn ardaloedd, yn fwy bell na'r lleoliadau presennol.
 - Diffyg gwybodaeth ar ba gynigion oedd yn cael eu cyflwyno i achos canfyddedig y mater hwn, ym marn y Cyngor, sef y diffyg cludiant i blant gyrraedd yr ysgol.
- Roedd y Cyngor o'r farn nad oedd y cynnig a oedd yn cael ei wneud yn mynd i'r afael â'r mater mewn ffordd a fyddai'n gwella diogelwch ac nad oedd yn mynd i'r afael â'r mater craidd sy'n achosi'r problemau a brofwyd. Byddai'r Cyngor yn gofyn am adolygiad mwy trylwyr er mwyn cyflwyno cynigion mwy cynhwysfawr i'w hystyried.
4. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** - Cofnodion Drafft Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, 2^{il} Mai 2024. Nodwyd.
 5. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Eich Newyddion Cyngor. Nodwyd.

6. **Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad: Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant 2024-2030. Nodwyd.
7. **Green Gen Cymru** - Crynodeb o Adborth ymgynghoriad Tywi Teifi. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth ar gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin i'w Archwilio. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Dyddiadau hyfforddiant, Gorffennaf, Awst a Medi. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau Ffordd Dros Dro yr C2073 yng Nghroesyceiliog ar 19^{eg} Mehefin 2024. Nodwyd.
11. **Banc Barclays** – Datganiadau, arwyddwyd y cysoniad banc gan y Cyng Meinir James.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Tafenni o'r Hyfforddiant Cod Ymddygiad diweddar. Anogwyd pob aelodau i gymryd amser i edrych ar y dogfennau hyn.
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Tafenni o seminar arwynebu ffyrdd. Nodwyd.
14. **Seminar Trafnidiaeth Ranbarthol** – Nododd y Cadeirydd ei bod wedi ceisio mynychu'r seminar, ond nid oedd cyswllt y cyfarfod wedi gweithio. Roedd y Clerc wedi codi hyn gyda'r trefnwyr.

8. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Diffibrilwyr

Cadarnhaodd y Clerc fod y casyn newydd ar gyfer y diffibriliwr Glanmorlais gyda Atgyweiriwr y Cyngor i'w newid.

Dywedodd y Clerc ei fod wedi cael gwybod efallai na fyddai'r Gwasanaeth Ambiwlans bellach yn barod i ddarparu padiau neu batrys ar gyfer y defibs, er hynny byddai stoc yn cael ei ddarparu ar gyfer yr unedau hynny sydd angen eu hadnewyddu ym mis Awst. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Clerc i brynu rhai yn eu lle ar gyfer gofynion y dyfodol.

2. Blychau Blodau Arwyddion Pentref

Disgwyliid gwybodaeth am gynigion gan yr Atgyweiriwr Cymunedol.

3. Derbyniwyd a chymeradwywyd anfoneb gan Wrenvale Nurseries ar gyfer chwistrellu chwyn o amgylch Cae Idole ar gost o £80.00 ynghyd â TAW.

9. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio yn Mehefin gyda chost o £616.00 yn cael eu gytuno. Cytunwyd taliadau torri gwair ar gyfer mis Mehefin ar gost o £308.00 hefyd.

10. Adroddiad Cyllid 2024-25

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb chwarter 1af ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25 Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

11. Archwilydd Mewnol 2024-25

Ystyriodd y Cyngor benodi Archwilydd Mewnol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25. Cytunwyd i gadw Charles and Company yn y rôl am flwyddyn pellach.

12. Digwyddiadau Cymunedol 2024

Nododd y Cadeirydd fod y beirniadu Gerddi Llysiau wedi digwydd gyda Gerddi Flodau ar yr 20^{fed} Gorffennaf.

Byddai Cystadleuaeth y Bwgan Brain gyda thema'r Gemau Olympaidd yn cael ei beirniadu ddiwedd mis Gorffennaf.

Cytunwyd i gynnal noson wobrwyo ar 19^{eg} Awst gyda bwffe gan Morrisons fel y darparwyd ar gyfer digwyddiad 2023.

13. Cynllunio

- Nododd y Cyng Meinir James ac Elfyn Williams eu diddordebau a gwnaed gadael y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth yr eitem hon. PL/04973 -** Defnyddio Adeilad Diwydiannol ac Iard gysylltiedig ar gyfer Defnyddiau Diwydiannol Cymysg yn cynnwys Garej Cerbydau Masnachol a Chyfleuster Prosesu Metelau, gyda newidiadau i gynnwys codi rhan o strwythur y to presennol - 1-4 Ystâd Fasnachu Gelligaeros, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ. Cytunwyd i godi gwrthwynebiadau, gan nodi bod y Cyngor yn credu bod y cais yn groes i bolisiau cynllunio mewn perthynas â phryderon priffyrdd (GP1,d, h, l ac m), effeithiau amgylcheddol (EP2.b a d) effeithiau sŵn GP1.d ac EP2.c), effaith ar eiddo cyfagos (GP1.d) a phryderon llygredd dŵr (GP1.j).

14. Cyfrifon

a) Cytunwyd y taliadau ganlynol:

- Michael Leefe £616.00** Torri Gwair Mehefin (gweler eitem 9)
- Michael Leefe £308.00** Atgyweiriwr Mehefin (gweler eitem 9)

3.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Mehefin a costau	£722.43	£26.00 £7.00 £11.70 £19.55	£786.68	£298.60		£488.08

4. **CTEM £895.80** Ebrill – Mehefin.

5. **Wrenvale Nurseries £96.00** Chwistrellu chwyn Cae Idole (£80.00 ynghyd â £16.00 TAW) gweler eitem 7.3

15. Materion arall a godwyd gan aelodau

- Adroddodd y Clerc ei fod wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir beth oedd yn ymddangos yn gerbyd wedi'i adael yng Nghyffordd Idole / Pentrepoeth.
- Nodwyd bod tipio anghyfreithlon wedi'i adael yn Nhir Gof. Roedd hyn wedi'i glirio gan Atgyweiriwr y Cyngor.

3. Bydd y Clerc yn codi arwydd Llangynnwr yn Heol Bolahaul gyda'r Cyngor Sir, lle teimlwyd ei fod wedi ei leoli yn y lle anghywir.
4. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Atgyweiriwr Cymunedol dreulio amser ychwanegol yng nghysgodfan Bws Bancycapel gan fod yna wybodaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio fel toiled.
5. Nodwyd bod carthion dynol wedi'i ddarganfod yn y gilfan ger Garthowen.
6. Mynegwyd pryder mewn perthynas â thwf cloddiau yn ardaloedd Llandyfaelog yn arwain at pryderon diogelwch cerbydau. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
7. Nodwyd bod difrod wedi digwydd i bont Croesyceiliog.
8. Nodwyd arwydd wedi'i ddifrodi ar gyfer cyfeiriad Llansaint ar gyffordd Llandyfaelog.
9. Bydd llythyr llongyfarch yn cael ei anfon at Eddie James o Llwynyreos ar ôl iddo ennill Cap Rygbi Rhyngwladol i Gymru.
10. Bydd llythyr llongyfarch yn cael ei anfon at Fferm Lan ar eu llwyddiant o 100 mlynedd o fridio gwartheg godro pedigri dros 4 cenhedlaeth.
11. Bydd llythyr llongyfarch yn cael ei anfon i fferm Penyback ar eu llwyddiannau yn Sioe y Highlands.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 5^{ed} Medi 2024.